**Y Pwyllgor Menter a Busnes**
**Enterprise and Business Committee**

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Jane Hutt AC**
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ

17 Hydref 2012

Annwyl Jane,

**Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg (Diwygio) (Cymru) 2012**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Hydref yn gwahodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Menter a Busnes i ystyried tystiolaeth am Reoliadau Mangreoedd Di-fwg (Diwygio) (Cymru) 2012.

Mae'ch llythyr yn ein gwahodd i gyfarfod mewn sesiwn ar y cyd er mwyn clywed tystiolaeth gan y rhai sydd â diddordeb yn y mater hwn a pharatoi un adroddiad ar ganfyddiadau'r cyd-bwyllgor. Mae'r ddau bwyllgor yn hapus, mewn egwyddor, i wneud y gwaith hwn, yn amodol ar y materion a restrir isod:

*(i) Cyd-bwyllgor / pwyllgorau cydamserol*

Byddwch yn ymwybodol nad yw Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer sefydlu cydbwyllgor nac yn caniatáu i bwyllgorau gyfarfod ar y cyd. Yn hytrach, yn unol â Rheol Sefydlog 17.53, gall pwyllgorau'r Cynulliad gyfarfod yn *gydamserol*. Mewn effaith, mae hyn yn galluogi mwy nag un pwyllgor i glywed yr un dystiolaeth tra'n parhau i fod wedi'u cyfansoddi ar wahân.

Fel cadeiryddion, rydym yn hapus i gynnig i'n pwyllgorau ein bod yn gwneud y gwaith hwn yn gydamserol. Fodd bynnag, ni chredwn ei fod yn ymarferol nac yn gymesur disgwyl i'r 20 Aelod gymryd rhan. I fynd i'r afael â'r pryder hwn, rydym yn cynnig gwahodd y ddau bwyllgor i sefydlu is-bwyllgor o 5 aelod. Bydd y ddau is-bwyllgor wedyn yn cydweithio i chwilio am dystiolaeth ac yn cyhoeddi eu canfyddiadau mewn un adroddiad.

Ffôn / Tel: 029 2089 8403/8582
E-bost / Email: PwyllgorIGC@cymru.gov.uk/pwyllgor.menter@cymru.gov.uk


Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Byddwch yn ymwybodol bod Rheol Sefydlog 17.19 yn gofyn bod unrhyw is-bwyllgor yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor a oedd yn gyfrifol am ei sefydlu. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd disgwyl i'r ddau is-bwyllgor sy'n gweithio ar y rheoliadau hyn ofyn i'w rhiant-bwyllgorau gymeradwyo'r adroddiad terfynol. Roeddem am eich rhybuddio am y gofyniad hwn o ran gweithdrefn oherwydd mae'n bosibl y bydd gan y ddau riant-bwyllgor wahanol farn am ganfyddiadau'r is-bwyllgorau.

*(ii) Amserlen*

Fel y byddwch yn ymwybodol, mae gan y ddau bwyllgor bwysau gwaith trwm yn ystod yr hanner tymor nesaf a thu hwnt. Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd yn disgwyl i ddau ddarn o ddeddfwriaeth gael eu cyfeirio ato er mwyn iddo eu hystyried cyn y Nadolig. Yn hynny o beth, os ydym yn ymgymryd â'r gwaith craffu hwn, bydd yr amserlen yn ddibynnol ac yn amodol ar gynnydd o ran ein hymrwymiadau gwaith eraill.

Yn gywir,



**Mark Drakeford a Nick Ramsay**
Cadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Menter a Busnes